**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyfeiriad: LG/1103/23

Darren Millar MS
Cadeirydd dros dro
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

5 Mai 2023

Annwyl Darren,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mawrth ynglŷn â rheoliadau organig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraethau eraill Prydain Fawr i ddiwygio'i rheoliadau organig. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y DU yn trafod cyfwerthedd rheoliadau organig Prydain Fawr gyda'r UE. Nid yw llwyddiant y trafodaethau gyda'r UE yn dibynnu ar orffen diwygio’r rheoliadau organig ymlaen llaw.

Er bod yr UE wedi addasu ei reoliadau organig ers i'r DU adael yr UE, mae Llywodraeth y DU yn hyderus bod ein deddfwriaeth organig ddomestig, fel y'i cedwir yn dilyn Gadael yr UE, yn cyrraedd y safonau y mae'r UE yn eu hystyried yn dderbyniol er mwyn cytuno ar drefniant cyfwerthedd. Mae'n debygol y bydd y trafodaethau hyn yn cael eu cwblhau yn ystod yr hydref eleni, felly ni ddylent olygu y bydd unrhyw darfu ychwanegol ar fasnachu mewn cynhyrchion organig.

Gan nad oes gan gynhyrchion organig god tollau penodol, nid oes data ar gael i fesur yn gywir faint a gwerth y cynnyrch organig sy'n cael ei allforio o Gymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraethau Prydain Fawr yn bwriadu datblygu rheoliadau organig yn y dyfodol ar sail argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Gynhyrchu Organig. Er mai un o’r prif amcanion wrth ddrafftio rheoliadau'r dyfodol fydd cynnal cyfwerthedd â'r UE a safonau organig eraill ledled y byd, nid yw hynny’n debygol o olygu y byddant yn adlewyrchu holl safonau'r UE. Bydd amcanion eraill, megis sicrhau bod rheoliadau’n fwy cydnaws ag egwyddorion organig, yn debygol o olygu y bydd rhai agweddau ar reoliadau organig Prydain Fawr yn wahanol i reoliadau organig yr UE. Mae adolygu a chryfhau rheoliadau organig ar draws yr holl sectorau yn fater cymhleth ac mae hynny’n golygu y bydd yn cymryd blynyddoedd, yn hytrach na misoedd, i ddatblygu safonau newydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda DEFRA a Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod buddiannau cynhyrchwyr a defnyddwyr organig yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu wrth i ddeddfwriaeth newydd gael ei datblygu.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**